**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

15 Mehefin 2017

Annwyl Dai Lloyd AC

Craffu ar y gyllideb ddrafft

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn ystyriaeth y Pwyllgor Busnes o'i adroddiad drafft ar newidiadau i'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â chraffu ar y gyllideb ddrafft, cyn i'r newidiadau i'r Rheolau Sefydlog a'r Protocol o ran Proses y Gyllideb gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos nesaf.

Mae'r newidiadau i broses y gyllideb yn benllanw darn o waith a ddechreuwyd gan y Pwyllgor Cyllid yn y Pedwerydd Cynulliad; mae datganoli pwerau cyllidol yn Neddf Cymru 2014 wedi golygu bod yn rhaid i waith craffu'r Cynulliad bellach ystyried nid yn unig gynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru, ond sut y bydd y cynlluniau hyn yn cael eu hariannu, drwy drethi a benthyca.

Mae'r prif newidiadau sy'n cael eu cynnig yn cynnwys bod y gwaith craffu ar y gyllideb yn dod yn broses dau gam, lle mae'r wybodaeth ar lefel uwch y byddai'r Pwyllgor Cyllid yn craffu arni yn cael ei chyhoeddi cyn y manylion sydd eu hangen gan y pwyllgorau polisi, a chaniateir mwy o amser ar gyfer y gwaith craffu. Yn benodol, y gobaith yw y bydd yr amser ychwanegol hwn yn caniatáu i'r pwyllgorau polisi ymgymryd â gwaith craffu manylach o'r gwariant yn eich portffolios, ac ni fydd yn ofynnol mwyach ichi adrodd i'r Pwyllgor Cyllid. Gallwch adrodd yn eich rhinwedd eich hun os byddwch am wneud hynny.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Rwyf wedi gofyn am drafodaeth ynghylch y newidiadau hyn yn fforwm nesaf y Cadeiryddion, er mwyn ein galluogi ni i drafod y newidiadau mewn mwy o fanylder a gallwn ystyried y canlynol:

- sut y bydd gwaith craffu'r Pwyllgor yn gweithio yn ymarferol;
- sut y gall y Pwyllgor Cyllid gadw rôl oruchwylio;
- sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i ymgysylltu cymaint â phosibl â'r cyhoedd;
- sut y gellir diwallu unrhyw anghenion hyfforddi a datblygu ar gyfer pwyllgorau.

Cyn y drafodaeth yn y Cyfarfod Llawn mae'r newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog wedi cael eu cyflwyno, yn yr un modd â'r protocol diwygiedig.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am hyn, mae croeso ichi roi gwybod imi, ac edrychaf ymlaen at drafod y newidiadau hyn ymhellach yng nghyfarfod Fforwm y Cadeiryddion ar 12 Gorffennaf 2017.

Yn gywir

Simon Thomas AC

**Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid**